



**Cyngor Bro Morgannwg  
Adroddiad Monitro Blynyddol  
y Gymraeg 2015–6**

## Cefndir

Mae'r Cyngor wedi gweithredu tri Chynllun Iaith Cymraeg dros y deng mlynedd diwethaf, ac mae wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth ardderchog i siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

Yn dilyn cyhoeddiad Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfiaeth cyfreithiol i'r Cyngor sy'n manylu ar y modd mae gofyn i ni ddarparu a gwella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.

Bu gwaith paratoi ar gyfer yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth yn digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf, a lluniwyd Cynllun Gweithredu er mwyn cydymffurfio â'r 174 o ofynion. Atodir diweddariad isod fel rhan o'r adroddiad hwn.

Mae'r Cynllun Gweithredu'n amlinellu amserlen y gweithrediadau a'r camau mae angen eu cymryd i'w cyflawni. Sefydlwyd Pwyllgor Gwaith sy'n cyfarfod yn rheolaidd dan gadeiryddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr. Mae cynrychiolwyr craidd o adrannau ledled y Cyngor yn aelodau o'r grŵp hwn.

Mae'r cyngor yn parhau i gynnal strategaeth un rhif ffôn ar gyfer holl wasanaethau'r cyngor. Caiff y rhif hwn ei hysbysebu'n ddwyieithog, ac mae pob galwr yn cael dewis i wneud ei ymholiad yn Gymraeg. Yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16, dewisodd 1,337 o bobl wneud hyn. Dros y cyfan, gall 65% o ymholiadau gael eu hateb ar y cyswllt cyntaf heb orfod trosglwyddo'r alwad i adran arall. Mewn meysydd lle mae nifer uchel o alwadau, megis Rheoli Gwastraff, mae'r datrysiad pwynt cyswllt cyntaf dros 95%, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o'r ymholiadau Cymraeg yn cael eu hateb gan aelod staff sy'n siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae 13 chynrychiolydd gwasanaethau cwsmeriaid dwyieithog yn y ganolfan gyswllt gorfforaethol, sef 33% o gyfanswm y gweithlu yno.

Mae'r cynrychiolwyr yma'n medru ymateb i ymholiadau yn Gymraeg mewn sawl cyfrwng – e-bost, neges destun, wyneb yn wyneb neu ar y rhwydweithiau cymdeithasol.

Yn ogystal â pharatoi ar gyfer y Safonau, mae'r Cyngor wedi parhau i gefnogi gwersi Cymraeg i staff yn y gweithle, ac wedi annog staff i gofrestru ar gyrsiau Cymraeg. Gall siaradwyr Cymraeg ar y staff fynychu noson o weithgareddau cyfrwng Cymraeg a gynhelir yn y Barri bob wythnos. Rydyn ni hefyd wedi cynnal hyfforddiant 'cyfarfod a chyfarch' ac rydyn ni ar fin cyflwyno cwrs blasu am ddeg wythnos yn ogystal â chwrs gwella i feithrin hyder aelodau staff sy'n siarad Cymraeg.

Ar ben ein dyletswyddau statudol, mae cynllun newydd ar waith yn cydweithio â Menter Bro Morgannwg, a fydd yn derbyn cyllid gan y Cyngor i'r Fenter gynnig gweithgareddau cymdeithasol i siaradwyr Cymraeg yn y Fro. Bydd y cynllun yn cydlynu â'n timau ieuenctid, addysg oedolion ac ysgolion.

Mae'r cynllun gweithredu isod yn amlygu'r meysydd lle mae'r cyngor yn gweithio i wella gwasanaethau i'n cwsmeriaid a'n staff. Cynhaliwyd arolwg yn ddiweddar i adnabod staff sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg yn ogystal â'r aelodau mae'n well ganddynt dderbyn rhai ffurflenni Adnoddau Dynol yn Gymraeg.

## Crynodeb o Gynllun Gweithredu'r Cyngor a'r Cynnydd ynghlwm

	Gweithred	Meysydd	Cyfeirnod Safonol	Dyddiad gorffen	Sylw / diweddariad
1	Darparu nodyn briffio i uwch reolwyr / aelodau etholedig i'w ddsbarthu drwy gyfarfodydd y Timau Rheoli a chyfarfodydd tîm adrannol.	Gohebiaeth Galwadau ffôn Cyfarfodydd/apwyntiad au  Digwyddiadau cyhoeddus  Cyhoeddi dogfennau i'r cyhoedd  Ymateb i sylwadau ar rwydweithiau cymdeithasol  Polisiau/strategaethau ar gael i'r cyhoedd  Trwyddedau/tystysgrifau  Hysbysiadau swyddogol  Hyrwyddo'r iaith Gymraeg  Systemau annerch cyhoeddus	1-5 19/20/21 24-26b, 27a-d,30- 34,65-66  35-38  43-50  58-59  44  42  69-70  81-82  87	Ebrill 16	Mae nodyn briffio wedi ei ddsbarthu drwy'r fewnwyd a'r briff craidd. Codwyd sawl cwestiwn, felly bydd tudalen cwestiynau cyffredin ar gael ar y fewnwyd.  Bydd cyfarfodydd tîm adrannol yn cael eu hannerch yn ystod Mai / Mehefin 16.
2	Darparu briff i aelodau'r Cabinet Busnes / uwch reolwyr / aelodau etholedig eraill	Gohebiaeth Galwadau ffôn Cyfarfodydd/apwyntiad au  Digwyddiadau cyhoeddus	1-5 19/20/21 24-26b, 27a-d,30- 34,65-66  35-38	Mai 16	Cafodd aelodau'r Cabinet briff ym mis Chwefror. Bydd sesiwn i'r holl aelodau etholedig yn cael ei chynnal

		Cyhoeddi dogfennau i'r cyhoedd	43-50		ar 11 Mai. Anfonwyd gwahoddiad gan y tîm Gwasanaethau Democraidd ynghyd â nodyn atgoffa.
		Ymateb i sylwadau ar rwydweithiau cymdeithasol	58-59		
		Polisiâu/strategaethau ar gael i'r cyhoedd	44		
		Trwyddedau/tystysgrifau	42		
		Hysbysiadau swyddogol	69-70		
		Hyrwyddo'r iaith Gymraeg	81-82		
		Systemau annerch cyhoeddus	87		
3	Creu tudalen ar y Fewnrwyd i roi gwybod i aelodau staff beth yw eu cyfrifoldebau.	Fel uchod.	Fel uchod	Meh 16	Casglwyd rhestr ddrafft o gwestiynau cyffredin ac mae ar y fewnrwyd. Bydd tudalen i siaradwyr Cymraeg yn cael ei datblygu yn ogystal.
4	Dosbarthu gwybodaeth i staff drwy'r briff craidd a dulliau eraill.	Fel uchod.	Fel uchod.	Chwef 16	Cafodd y staff wybod ym mis Chwefror drwy'r briff craidd a darparwyd diweddariadau ers hynny.
5	Sicrhau bod templedi llythyron ac e-bost ac ymatebion i ymholiadau gan y wasg yn egluro bod gwasanaeth	Correspondence (refers also to some Operational Standards)	7 Also relates to Operational Standards 134/135	Mai 16	Templates have been issued to all staff. Translated job titles will appear on all

	ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a sicrhau bod yr holl staff yn eu defnyddio.				Emails.
6	Darparu hyfforddiant 'cyfarfod a chyfarach' i staff croesawu	Galwadau ffôn / cyfarfodydd	19,20,21, 24-27	Meh 16	Cynhaliwyd yr hyfforddiant i staff Gwasanaethau Cymdeithasol ar 4 Mai. Trefnwyd cwrs blasu deg wythnos o hyd i ddechrau ar 10 Mai. Bydd cwrs gwella'n digwydd ym mis Mehefin. .
7	Sicrhau bod pob aelod o staff yn gosod neges ddwyieithog wrth nodi absenoldeb mewn e-bost awtomatig. Mae hefyd angen i droedyn yr e-bost ddweud a yw'r staff yn rhugl neu'n dysgu Cymraeg.	Gohebiaeth (yn cyfeirio at y Safonau Gweithredol hefyd)	7, Yn berthnasol i'r Safonau Gweithredol 134/138 hefyd	Maw 16	Rhan o'r fewnwyd a'r briff craidd. Darparwyd neges absenoldeb i'r holl staff.
8	Sicrhau bod datganiadau i'r wasg yn ddwyieithog pan fo hynny'n bosibl.	Cyhoeddi dogfennau a ffurflenni	46	Parhaus	Bu hyn yn digwydd ers 1 Ebrill.
9	Sicrhau bod pob taflen, dogfen, datganiad a datganiad i'r wasg sy'n cael eu rhyddhau yn Saesneg yn nodi bod fersiwn Gymraeg ar gael ar alw.	Cyhoeddi dogfennau a ffurflenni	46	Parhaus	Bu hyn yn digwydd ers 1 Ebrill.
10	Trefnu cymorth i	Y wefan a	52-56	Meh 16	Mae cymorth

	ddechrau'r broses o ddarparu'r wefan yn gyfan gwbl ddwyieithog.	gwasanaethau ar-lein			ychwanegol ar gael ac mae'r gwaith yn parhau.
11	Trefnu bod ffurflenni'n ddwyieithog cyn iddynt gael eu llwytho.	Y wefan a gwasanaethau ar-lein	51	Meh 16	Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal a bydd rhaglenni allanol yn cydymffurfio drwy ddatrysiaid Linguaskin.
12	Sicrhau bod pob arwydd a hysbysiad newydd neu ddiwygiedig yn ddwyieithog a'r Gymraeg yn gyntaf.	Arwyddion / hysbysiadau	61-63	Parhaus	Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa am hyn.
13	Sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael mewn prif dderbynfeydd a bod arwyddion yn arddangos argaeledd y gwasanaeth hwnnw.	Derbynfeydd	64,67,68	Medi 16	Mae'r prif dderbynfeydd yn ddwyieithog erbyn hyn. Bydd y lleill yn cydymffurfio erbyn mis Medi.
14	Rhaid i wahoddiadau grant ddatgan y gellir cyflwyno cais a chynnal cyfweliadau yn Gymraeg yn ôl y galw. Ni ddylai fod unrhyw oedi os defnyddir y Gymraeg.	Grantiau/Tendrau	72-75	Maw 16	Dosbarthwyd y wybodaeth hon o fewn yr Adran Gyllid.
14 a	Rhaid i wahoddiadau i dendr fod yn ddwyieithog a datgan bod	Grantiau/Tendrau	76-77a	Medi 16	Fel uchod.

	croeso i bobl gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg. Ni ddylai fod unrhyw oedi os defnyddir y Gymraeg.				
15	Asesu pob cwrs addysg newydd i'r cyhoedd i werthuso'r angen i'w ddarparu yn Gymraeg a <u>chadw cofnod o'r asesiad.</u>	Addysg	84-86	Parhaus	Mae Gwasanaethau Addysg i Oedolion ac Ieuenctid wedi derbyn y wybodaeth hon.
16	Cyfieithu agendâu holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau.	Democrataidd	41	Parhaus	Bu hyn yn digwydd ers 1 Ebrill 16.
17	Cyfieithu cofnodion cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau	Democrataidd	41	Parhaus	Bydd hyn yn digwydd o 1 Ebrill 2017 ymlaen.
18.	Dylid cwblhau asesiad effaith, yn cynnwys ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, ar bob polisi newydd neu ddiwygiedig.	Polisi ac ymchwil	88-97	Parhaus	I'w gyflawni drwy gyfeiriad mewn adroddiadau perthnasol gan y Cabinet / pwyllgorau.
19.	Sefydlu grŵp prosiect i drefnu holiadur i'r holl staff.	Sgiliau iaith a dewis iaith ar gyfer ffurflenni a gweithdrefnau	104, 127,100, 101-103	Meh 16	Mae'r grŵp wedi cwrdd yn rheolaidd. Cynhaliwyd arolwg ar o ddefnyddwyr cyfrifiaduron ac mae gweithredu ar y gweill i gysylltu â staff gwaith llaw.
20	Cyfieithu holl bolisiau Adnoddau Dynol (AD).	Holl bolisiau AD.	105 – 111	Meh 16	Mae'r gwaith hwn ar fin cael ei gynnal.



21.	Cynyddu ymwybyddiaeth staff o gynnig darpariaeth yn Gymraeg yn achos cytundebau, cwynion ac achosion disgyblu.	Briffio	99,114,18	Medi 16	Lluniwyd rhestr o'r defnyddwyr a ddymunai ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd tudalen ar y fewnrwyd i restru'r eitemau penodol mae'n rheidwydd arnom eu cynnig yn Gymraeg.
22.	Paratoi tudalen ar y Fewnrwyd ac erthygl yn y Briff Craidd i hysbysu staff sy'n siarad Cymraeg o'u hawliau, a darparu cefnogaeth i ddysgwyr.	Gweithdrefnau AD	112 – 125,141-143	Mai 16	Bydd hon ar gael dros y misoedd nesaf.
23.	Darparu meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg a rhyngwynebau Cymraeg sydd ar gael i staff sy'n siarad Cymraeg.	Meddalwedd TGCh	120	Parhaus	Gellir gosod Cysill os yw siaradwyr Cymraeg yn awyddus i'w dderbyn.
24.	Cynnig cyfleoedd hyfforddiant <u>sylyfaen</u> Cymraeg i'r holl staff <u>o fewn oriau gwaith</u> ac i reolwyr os yw'n ofynnol yn eu gwaith. Dylai hyfforddiant pellach fod yn rhad ac am ddim i'r gweithlu.	Hyfforddiant	130 -131	Parhaus	A reminder will be placed on Staffnet in advance of the September enrolment date. Taster course is planned for May 10 <sup>th</sup> .
25.	Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.	Hyfforddiant	132	Medi 16	Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf ar 4 Mai i staff y

					Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae trafodaethau ar y gweill i gydweithio gyda Chaerdydd.
26	Cynnwys gwybodaeth yn y Pecyn Cyflwyno Corfforaethol i staff yn Gymraeg.	Hyfforddiant	133	Parhaus	Wedi ei chynnwys a'i chyflwyno.
27.	Asesu lefel y Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd newydd a gwag, a'i chofnodi fel sy'n addas.	Adolygu gweithdrefnau	136	Meh 16	Bydd hyn yn digwydd o 1 Ebrill ymlaen. Dywedwyd wrth bob rheolydd.
28.	Dylai'r holl ddeunydd sy'n ymwneud â recriwtio fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg.	Recriwtio / gweithdrefnau dethol	137	Meh 16	Wedi'i gyfieithu ac yn cael ei ddosbarthu eisoes.
29.	Paratoi polisi ar ddefnydd y Gymraeg yn fewnol.	Ymwybyddiaeth	98	Medi 16	I'w baratoi a'i gyhoeddi.
30.	Dylai'r fewnrwyd fod ar gael yn Gymraeg – yr hafan, tudalennau newydd / diwygiedig a dewislenni.	TGCh / y tîm Cyfathrebu	122-126	Medi 16	Galwyd ar adnoddau allanol a bydd Staffnet yn cael ei gyfieithu. Y wefan allanol yw'r flaenoriaeth, fodd bynnag.
31.	Cyrsiau Adnoddau Dynol penodol i'w darparu yn Gymraeg  -Recriwtio a Chyfweld	Hyfforddiant AD	128	Parhaus	Byddwn yn gofyn i staff sy'n dymuno mynd ar gwrs yn Gymraeg i aros nes bod digon o enwau ar y rhestr i

	-Rheoli Perfformiad -Cwynion a Gweithdrefnau Disgyblu -Y Pecyn Cyflwyno -Ymwneud â'r Cyhoedd -Iechyd a Diogelwch				sicrhau ei bod yn ymarferol i gynnal y cwrs.
32.	Darparu hyfforddiant ar ddefnydd effeithlon o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd Adnoddau Dynol.	Hyfforddiant	129	Hyd 16	Caiff hyn ei drafod dros y misoedd nesaf.
33.	Pennu aelod o staff sy'n siaradwr Cymraeg ym mhob adran i fod yn llefarydd dros yr iaith.			Mai 16	Mae hyn wedi'i gyflawni ac mae rhestr ar gael.

## Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn adrodd ar yr holl fesurau cenedlaethol statudol ac yn gosod targedau ar eu cyfer. Rydyn ni hefyd wedi mabwysiadu nifer cyfyngedig o ddangosyddion lleol i helpu mesur cynnydd yn erbyn y cynllun hwn. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus drwy Gynllun Cynnydd a chynlluniau gwasanaethau'r cyngor, a gyhoeddir bob blwyddyn ac sydd ar gael ar wefan y cyngor: [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)

Ar ben hyn, bydd y cyngor yn cyhoeddi'r adroddiad hwn o fewn adran cydraddoldeb gwefan y cyngor ynghyd â data eraill ar faterion yr iaith.

Mae'r wybodaeth isod yn berthnasol i'r dangosyddion sy'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o Safonau'r Iaith Gymraeg.

<b>Safon 158 (2) 164 (2) 170 (2d)</b> Nifer y cwynion am weithrediad y Cynllun Iaith. Bydd y dangosydd	Derbyniodd y Cyngor chwech chwyn ynghylch ei weithrediad o'r Cynllun Iaith. Ceir manylion yn Atodiad 1.
---	--

<p>perfformiad hwn yn cael ei fesur ar sail nifer y bobl a gwynodd am gynnwys neu weithrediad y cynllun iaith, a chaiff y cwynion eu harchwilio gan y Tîm Cydraddoldeb, a fydd yn ymateb i'r cwynion hefyd.</p>	
<p><b>Safon 170 (2a)</b></p> <p>Y nifer o staff o fewn y Cyngor a chanddynt sgiliau Cymraeg. Mae'r dangosydd hwn wedi cael ei fesur fel rhan o Arolwg Sgiliau Iaith Ebrill 2016. Mae rhai data heb eu casglu gan staff maes.</p>	<p>Mae 118 aelod o staff sy'n ystyried bod eu sgiliau'n 'dda' neu yn 'rhugl' naill ai wrth ddarllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg. Mae hyn yng nghyd-destun 1,566 o ymatebion gan ddefnyddwyr cyfrifiaduron, felly 7.5% o'r gweithlu sy'n defnyddio cyfrifiadur yw'r canran.</p>
<p><b>Safon 170 (2b)</b></p> <p>• Y nifer o staff sy'n derbyn hyfforddiant ac i ba lefel / fedruswydd. Caiff hyn ei fesur yn seiliedig ar nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant dan adain y Cyngor. Caiff y mesur ei adrodd fel rhif ym mhob categori: Mynediad a Sylfaen, Canolradd, Uwch, Uwch/Meistr.</p>	<p>Mae nifer y staff sy'n dysgu ar hyn o bryd fel isod:</p> <p>Mynediad 1 <b>11</b></p> <p>Mynediad 2 <b>3</b></p> <p>Sylfaen 1 <b>6</b></p> <p>Uwch <b>1</b></p> <p>Cyfanswm <b>21</b></p> <p>Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu nifer y staff sydd wedi dal ati hyd yma. Mae nifer o gofrestrïadau nad sydd wedi parhau am amryw resymau.</p>
<p><b>Safonau 154,170 ch)</b></p> <p>Y nifer o swyddi newydd a gwag lle nodwyd bod y Gymraeg yn hanfodol</p>	<p>Ebrill 2015 – Mawrth 2016, cyhoeddwyd 467 o hysbysebion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 0 – y Gymraeg yn hanfodol</li> <li>• 116 – y Gymraeg yn ddymunol (25%)</li> <li>• 113 – dim gofyn am y Gymraeg</li> </ul>

<p>neu'n ddymunol.</p>	<p>(24%)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 238 – yr angen heb ei ddatgan (51%)</li> </ul> <p>Cofnodwyd y wybodaeth hon o fis Awst ymlaen, a gall fod hyn yn cyfrif am y nifer sydd 'heb ei ddatgan'.</p> <p>O fis Ebrill 2016 ymlaen, rhaid i bob swydd gael ei hasesu o ran galw am y Gymraeg, a rhaid darparu copi o'r asesiad hwnnw.</p>
------------------------	--

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n canolbwyntio ar gydymffurfio â'r safonau ac ar barhau i wella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg yn y Fro.